Estyn

Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Plas Brondyffryn

**Lôn Parc**
**Dinbych**
**Sir Ddinbych**
**LL16 3DR**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Plas Brondyffryn

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Plas Brondyffryn |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ddinbych |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Arbennig a gynhelir |
| Cymeriad crefyddol | Dim |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 133 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 107 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd mewn ysgolion arbennig a gynhelir yw 46.8%) | 37.0% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol mewn ysgolion arbennig a gynhelir yw 100.0%) | 100.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 3.2 |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 2.4 |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2021 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/07/2016 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 13/05/2024 |

Mae Ysgol Plas Brondyffryn yn ysgol arbennig awdurdod lleol a gynhelir gan Gyngor Sir Ddinbych. Mae'r ysgol yn darparu lleoliadau dydd a lleoliadau preswyl ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 19 oed ag awtistiaeth. Mae disgyblion o bob cwr o

Sir Ddinbych yn mynd i'r ysgol, ac o awdurdodau lleol cyfagos ar draws rhanbarth Gogledd Cymru yn ogystal.

Mae'r ysgol wedi'i lleoli ar dri safle yn nhref Dinbych. Mae 62 o ddisgyblion o oedran ysgol uwchradd ar y prif safle, 37 o ddisgyblion yn y lleoliad cynradd, a 25 o ddisgyblion oedran uwchradd ag anghenion mwy cymhleth yn Nhŷ'r Ysgol. Mae'r ddarpariaeth breswyl wedi'i lleoli ochr yn ochr â Thŷ'r Ysgol.

Mae gan bob disgybl ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig neu Gynlluniau Datblygu Unigol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn siarad Saesneg fel iaith yr aelwyd. Mae tua 42% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Ers diwedd 2021, mae'r ysgol wedi cymryd rhan mewn trafodaethau â'r awdurdod lleol i ad-drefnu darpariaeth mewn un safle ac ymestyn y capasiti i ddiwallu'r angen.

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: [fyysgolleol.llyw.cymru](fyysgolleol.llyw.cymru)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Plas Brondyffryn yn ysgol anogol ag iddi ethos cynhwysol. Mae staff yn meithrin perthnasoedd ymddiriedus gyda disgyblion. Maent yn adnabod eu disgyblion yn dda, ac yn addasu dulliau'n fedrus, ar y cyfan, i ddiwallu anghenion disgyblion. Dros gyfnod, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu i fod yn ddysgwyr hyderus a hapus.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu ystod o fedrau pwysig sy'n cefnogi eu dysgu a'u lles yn effeithiol. Dros gyfnod, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn datblygu eu medrau cymdeithasol ac emosiynol. O ran eu mannau cychwyn unigol, mae llawer o ddysgwyr yn bodloni eu targedau personol. Mae'r medrau hyn yn eu paratoi'n llwyddiannus ar gyfer symud ymlaen i'r camau nesaf mewn bywyd a dysgu. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw gallu disgyblion i ysgrifennu'n estynedig wedi'i ddatblygu'n ddigonol, yn bennaf oherwydd diffyg cyfleoedd strwythuredig i wneud hynny.

Mae ansawdd yr addysgu yn yr ysgol yn anghyson. Mewn lleiafrif o wersi lle mae'r addysgu'n fwyaf effeithiol, mae athrawon yn cyflwyno profiadau dysgu hynod ddifyr ac yn darparu gweithgareddau sydd wedi'u seilio o fewn cyd-destunau dysgu dilys. Mae llawer o staff addysgu yn ymyrryd ac yn herio disgyblion yn briodol ac yn sensitif i sicrhau eu bod yn parhau i ymgymryd â thasgau ar gyflymdra sy'n briodol i'r unigolyn. Mewn ychydig o achosion, lle mae'r addysgu'n llai effeithiol, mae disgyblion yn tueddu i fod yn oddefol am gyfnod rhy hir yn ystod gwersi, neu rhoddir tasgau iddynt nad ydynt yn eu hysbrydoli na'u herio.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth bwrpasol a phwyllog. Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth sy'n gymharol newydd yn angerddol ac wedi ymrwymo i'r ysgol a'i disgyblion.

Nid yw defnydd yr ysgol o wybodaeth uniongyrchol i lywio cynllunio strategol wedi'i ddatblygu'n ddigonol, ac ni chaiff y wybodaeth sydd gan yr ysgol ei choladu i lywio meysydd ysgol gyfan i'w gwella yn ddigon da.

## Argymhellion

A1 Mynd i'r afael â'r materion diogelu a godwyd yn ystod yr arolygiad

A2 Gwella ansawdd a chysondeb yr addysgu

A3 Gwella'r cynllunio a'r ddarpariaeth ar gyfer medrau llythrennedd disgyblion

A4 Cryfhau'r trefniadau ar gyfer hunanwerthuso a chynllunio gwelliant

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad. Bydd Estyn yn gweithio gyda'r awdurdod lleol i adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif werthusiad

### Dysgu

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu ystod o fedrau pwysig sy'n cefnogi eu dysgu a'u lles yn effeithiol. O ran eu mannau cychwyn unigol, mae llawer o ddysgwyr yn bodloni eu targedau personol. Mae'r medrau hyn yn eu paratoi'n llwyddiannus ar gyfer symud ymlaen i'r camau nesaf yn eu bywyd a'u dysgu.

Dros gyfnod, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf o ran datblygu eu medrau cymdeithasol ac emosiynol. Er enghraifft, mewn gwersi, maent yn ymdawelu'n gyflym, yn dysgu gwrando ac yn dilyn cyfarwyddiadau ac arferion yn llwyddiannus. Maent yn cymryd eu tro ac yn cydweithredu â staff addysgu ac â'i gilydd. Mae disgyblion yn gwrando'n dda ar eu cyfoedion wrth ddilyn cyfarwyddiadau i adeiladu modelau. Mae llawer o ddisgyblion yn cyfathrebu'n gwrtais ag ymwelwyr yn yr ysgol. Hefyd, mae ychydig o ddisgyblion yn dangos sensitifrwydd i'w cyfoedion wrth drafod problemau'n ymwneud â bwlio yn eu hysgolion blaenorol.

Mae llawer o ddisgyblion, gyda chymorth staff, yn defnyddio systemau cyfathrebu sy'n briodol iddynt, ar y cyfan, gan gynnwys symbolau ac arwyddion. Er enghraifft, mae disgyblion iau yn defnyddio symbolau'n llwyddiannus i gyfleu dewisiadau bwyd yn y clwb brecwast. Dros gyfnod, daw disgyblion yn gynyddol hyderus o ran mynegi eu hanghenion, eu teimladau a'u dewisiadau. Maent yn gwneud cyfraniadau gwerthfawr wrth ateb cwestiynau ac yn ystod trafodaethau. Er enghraifft, mae ychydig o ddisgyblion yn trafod y rhesymau dros y gwahaniaethau yng ngoleuadau gogleddol a deheuol Aurora. Pan fo'n briodol, a phan fydd disgyblion yn gallu, maent yn ymgysylltu o'u gwirfodd, yn aeddfed ac yn hyderus mewn sgyrsiau estynedig ac ystyrlon, er enghraifft wrth rannu eu syniadau ar gyfer eu dyheadau yn y dyfodol.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu a gwella'u medrau darllen yn briodol. Er enghraifft, mae disgyblion yn adnabod ac yn deall symbolau ac arwyddion i nodi eu dewis o weithgareddau. Mae ychydig o ddisgyblion yn cymhwyso strategaethau darllen effeithiol wrth ymgymryd â thasgau darllen a deall, lle bo'n briodol, er enghraifft dod o hyd i wybodaeth am frwydr Hastings. Yn ychwanegol, mae ychydig o ddisgyblion yn dewis eu deunydd darllen ac yn mynegi eu barn â brwdfrydedd.

At ei gilydd, mae safon yr ysgrifennu ar draws yr ysgol yn amrywiol. Mae disgyblion iau yn gwella'r ffordd y maent yn ffurfio llythrennau a'u heglurdeb. Er enghraifft, maent yn ymarfer creu marciau a ffurfio llythrennau trwy ystod o wahanol ddulliau amlsynhwyraidd. Gall llawer o ddisgyblion sillafu geiriau'n gywir a chyfansoddi brawddegau byr yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn ysgrifennu brawddegau byr

am yr effaith a gaiff bodau dynol ar blaned y ddaear. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn ysgrifennu at amrywiaeth o wahanol ddibenion a chynulleidfaoedd yn briodol. Mae ychydig o ddisgyblion, er enghraifft, yn ysgrifennu darnau estynedig o ysgrifennu fel cofiannau enwogion o Gymru, ac yn defnyddio cyffelybiaethau a throsiadau i ysgrifennu disgrifiadau atgofus o olygfeydd mewn natur. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw gallu disgyblion i ysgrifennu'n estynedig wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

Mae disgyblion yn defnyddio'u medrau rhifedd datblygol mewn ystod o gyd-destunau ystyrlon. Yn gyffredinol, mae ganddynt amgyffrediad cadarn o gysyniadau rhif. Er enghraifft, mae disgyblion yn defnyddio cyfrifiadau yn y pen i gyfrifo faint yn fwy o bwyntiau dosbarth y mae angen iddynt eu casglu er mwyn cyflawni eu targed. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau mesur yn effeithiol, er enghraifft wrth gofnodi'r tymheredd mewn rhannau amrywiol o adeilad yr ysgol. Maent yn dechrau llunio casgliadau addas o'r data y maent wedi'i gasglu.

Mae llawer o ddisgyblion yn ymarfer eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn briodol i gefnogi eu lles a'u dysgu ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio pecynnau meddalwedd yn annibynnol i ymarfer medrau darllen a sillafu. Dros gyfnod, a lle bo'n briodol, mae disgyblion wedi datblygu medrau priodol i allu mynd at ddeunyddiau dysgu ar-lein, eu cwblhau, eu cadw a'u hadalw. Hefyd, mae ychydig ohonynt yn cyfleu eu syniadau'n briodol gan ddefnyddio dulliau digidol, er enghraifft trwy ysgrifennu nodiadau ar ddogfennau a rennir i gynnig awgrymiadau am ansoddeiriau i wella darn o ysgrifennu.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau creadigol yn dda. Yn ystod sesiwn therapi cerdd, mae disgyblion yn canu'r piano a'r drymiau yn hyderus a medrus i gyfeilio i ganwr. Mae llawer o ddisgyblion yn creu paentiadau a chollages deniadol o anifeiliaid o'r goedwig law ac yn tynnu llun patrymau sialc trawiadol ar faes chwarae'r ysgol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn mwynhau amrywiaeth o weithgareddau corfforol, sy'n cynnwys dringo creigiau, reidio beiciau a threiciau, a chanŵio.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd gwerthfawr yn datblygu eu medrau annibyniaeth, yn enwedig mewn meysydd sy'n berthnasol i'w bywydau bob dydd. Er enghraifft, mae disgyblion iau yn defnyddio byrddau cyfathrebu i gyfleu eu hanghenion a'u hoffterau ac yn casglu offer o'u blychau chwarae amser cinio. Mae disgyblion hŷn yn dysgu paratoi byrbrydau iach yn annibynnol.

Erbyn iddynt adael yr ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion yn ennill achrediad a chymwysterau perthnasol mewn ystod eang o feysydd i gefnogi eu cyfnod pontio i'r cyfnod nesaf yn eu bywydau. Mae'r cynnig hwn yn cynnwys dyfarniadau ac achrediad mewn meysydd fel medrau hanfodol, trin arian, cerddoriaeth a cherddorion Cymru, ac iechyd a diogelwch yn y gweithle.

Dros y tair blwyddyn academaidd ddiwethaf, aeth y rhan fwyaf o ddisgyblion a oedd yn gadael yr ysgol ymlaen i addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae disgyblion yn datblygu perthnasoedd cryf ac ymddiriedus â staff. Mae hyn yn eu cynorthwyo i wybod ble i droi am gymorth ac arweiniad. Caiff disgyblion eu trin yn

deg a'u parchu. Mae disgyblion yn ddiogel yn yr ysgol ac yn dweud eu bod yn rhydd rhag bwlio a niwed geiriol a chorfforol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn elwa ar yr arferion sefydledig a chyson ar draws yr ysgol, ac yn ymateb yn gadarnhaol iddynt. Mae disgyblion yn foesgar a chwrtais, ac mae llawer ohonynt yn awyddus i gyfathrebu ag ymwelwyr am eu profiadau cadarnhaol yn yr ysgol. Maent yn barchus tuag at ei gilydd, aelodau staff, ac ymwelwyr â'r ysgol. Dros gyfnod, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dysgu deall a rheoli eu hemosiynau. O ganlyniad, mae ymddygiad bron pob un o'r disgyblion ar draws pob safle yn eithriadol o dda.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymdawelu i gwblhau tasgau'n gyflym ac ymgymryd â gwaith yn annibynnol, neu gyda chymorth, pan fydd angen. Maent yn ymateb yn dda i ganmoliaeth ac adborth cadarnhaol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn falch o'u gwaith a'u cyflawniadau ac yn datblygu agwedd gadarnhaol at ddysgu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgysylltu'n dda â'u dysgu, yn ymateb yn frwdfrydig yn ystod gwersi, ac yn dal ati i ganolbwyntio i gwblhau eu tasgau. Dros gyfnod, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu gwydnwch yn dda.

Pan fo'n briodol, mae llawer o ddisgyblion yn gweithio gyda'i gilydd yn dda mewn parau a grwpiau bach. Maent yn gweithio gyda'i gilydd yn dda yn ystod amseroedd egwyl, er enghraifft dysgu rhannu wrth ddefnyddio byrddau siglo, platfformau troelli a chylchynau pêl-fasged, a chymryd eu tro wrth chwarae gemau. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn dechrau datblygu eu medrau byw yn annibynnol. Fodd bynnag, nid yw medrau disgyblion yn y maes hwn wedi'u datblygu'n ddigonol.

Mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn ymgymryd yn frwdfrydig ag ystod o rolau arwain gwerthfawr. Mae disgyblion yn cymryd eu rolau arwain o ddifrif ac yn mynd ati i ymgysylltu â'r Cyngor Ysgol a'r pwyllgor eco, er enghraifft. Maent yn gwneud awgrymiadau defnyddiol sy'n ysgogi gwelliannau i'r ysgol, er enghraifft ymestyn ystod yr offer amser chwarae. Mae'r profiadau hyn yn rhoi llais i ddisgyblion, sydd yn ei dro yn cael effaith gadarnhaol ar eu hunan-barch a'u hunan-werth, ac yn eu helpu i deimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu dealltwriaeth o degwch, cydraddoldeb a chynaliadwyedd, trwy weithgareddau amrywiol i godi arian. Er enghraifft, maent yn casglu pacedi creision gan ddisgyblion ar draws yr ysgol i'w rhoi i elusen sy'n ailgylchu'r rhain i greu blancedi i'r digartref. Mae ystod y cyfleoedd llais y disgybl yn cynorthwyo disgyblion yn dda i ddatblygu i fod yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwella'u presenoldeb dros gyfnod. Fodd bynnag, mae cyfraddau presenoldeb ychydig o ddisgyblion yn parhau i fod yn rhy isel. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi nodi bod gwella presenoldeb yn faes i'w wella.

Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn ystod o weithgareddau cyfoethogi buddiol yn ystod amseroedd cinio, sy'n cyfrannu'n effeithiol at eu hymgysylltiad, eu lles a'u medrau cymdeithasol, er enghraifft clwb ffilmiau, clwb pêl-droed, clwb gemau a chlwb cerddoriaeth.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn hapus yn yr ysgol ac yn mwynhau eu profiadau yn yr ysgol. Maent yn siarad yn frwdfrydig am dripiau a phobl sy'n ymweld â'r ysgol, ac yn mwynhau profiadau fel cymryd rhan mewn digwyddiadau chwaraeon a'r Eisteddfod Genedlaethol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol. Pan fo'n briodol, mae'r profiadau hyn yn helpu disgyblion i ddeall sut i gadw'n iach a chael ffordd iach o fyw. Mae disgyblion yn mwynhau cymryd rhan mewn gwersi Addysg Gorfforol ac yn chwarae ar offer y maes chwarae yn ystod amser cinio ac amseroedd egwyl lle maent yn datblygu eu cydsymud a'u cydbwysedd. Mae ychydig o ddisgyblion yn elwa ar gymryd rhan mewn digwyddiadau chwaraeon, fel twrnameintiau chwaraeon anabledd. Er enghraifft, a lle bo'n briodol, mae disgyblion yn gwybod bod cymryd rhan mewn ymarfer corff rheolaidd a bwyta diet cytbwys yn bwysig. O ganlyniad, maent yn datblygu i fod yn unigolion iach a hyderus.

**Addysgu a phrofiadau dysgu**

Ar draws yr ysgol, mae staff wedi sefydlu perthnasoedd gweithio cadarnhaol â'u disgyblion. Mae staff yn adnabod eu disgyblion yn dda. Mae hyn yn helpu sicrhau bod disgyblion yn barod i ddysgu, er enghraifft trwy gyfarch disgyblion wrth iddynt ddod i'r ysgol a'r gwersi.

Ceir ymagwedd bwyllog at reoli cyfnodau pontio, sy'n sicrhau bod bron pob un o'r disgyblion yn barod i ymgysylltu â'u dysgu. Pan fo'n briodol, mae staff yn darparu rhaglen strwythuredig o symudiadau arferol sy'n galluogi disgyblion i hunanreoli.

Yn y lleiafrif o wersi lle mae'r addysgu'n fwyaf effeithiol, mae athrawon yn cyflwyno profiadau dysgu hynod ddifyr ac yn darparu gweithgareddau sydd wedi'u seilio o fewn cyd-destunau dysgu dilys, er enghraifft creu cynhyrchion i'w gwerthu yn eu canolfan arddio eu hunain ar ôl ymweld ag un yn yr ardal leol. O ganlyniad, mae disgyblion yn dysgu â brwdfrydedd a chwilfrydedd diffuant.

Pan mae'r addysgu'n fwyaf effeithiol, mae staff yn defnyddio systemau cyfathrebu a strwythurau gweledol yn effeithiol i gynorthwyo disgyblion i fod yn ddysgwyr mwy annibynnol.

Yn yr enghreifftiau cryfaf, mae athrawon yn cyflwyno dilyniannau o wersi sy'n adeiladu ar fedrau disgyblion yn dda. Er enghraifft, mae athrawon yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ymarfer gan ddefnyddio gwahanol nodweddion ysgrifennu cyn cymhwyso'u medrau i ysgrifennu'n estynedig.

Mae llawer o staff addysgu yn ymyrryd ac yn herio disgyblion yn briodol ac yn sensitif i sicrhau eu bod yn parhau i ymgymryd â thasgau ar gyflymdra sy'n briodol ar gyfer yr unigolyn. Mewn ychydig o achosion, lle mae'r addysgu'n llai effeithiol, mae disgyblion yn tueddu i fod yn oddefol am gyfnod rhy hir yn ystod gwersi neu'n cael tasgau nad ydynt yn eu hysbrydoli na'u herio. Mae'r athrawon hyn yn tueddu i ddibynnu gormod ar fframiau ysgrifennu a thaflenni gwaith sy'n rhwystro cyfleoedd disgyblion i ymateb yn rhydd i dasgau neu ysgrifennu'n estynedig.

Ar draws yr ysgol, mae mwyafrif y staff addysgu yn rhoi adborth geiriol a gweledol defnyddiol i ddisgyblion. Yn yr enghreifftiau cryfaf, rhoddir adborth geiriol ac ysgrifenedig clir i ddisgyblion, sy’n darparu’r camau nesaf mewn dysgu.

Yn gyffredinol, mae staff cymorth yn datblygu perthnasoedd gweithio pwysig ac anogol gyda disgyblion. Maent yn cynorthwyo disgyblion yn eu dysgu yn effeithiol yn ystod gwersi ac wrth iddynt symud o gwmpas yr ysgol. Maent yn gwybod ac yn deall yn dda beth yw anghenion a diddordebau disgyblion. Maent yn darparu cymorth gwerthfawr a chadarnhaol i ddisgyblion, yn aml gan ddefnyddio’u medrau proffesiynol i addasu dysgu i weddu i anghenion y disgyblion.

Mae cydlynwyr medrau rhifedd a digidol yn dechrau darparu arweiniad defnyddiol ar gyfer athrawon i’w cynorthwyo i gynllunio cyfleoedd addas i ddisgyblion gymhwyso’u medrau yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, at ei gilydd, mae’n ddyddiau cynnar o ran cynllunio ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol disgyblion yn raddol.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod y cwricwlwm yn eang a chytbwys ac yn adlewyrchu anghenion bron pob un o’r disgyblion yn dda. Ceir ethos cryf i roi anghenion disgyblion wrth wraidd y cwricwlwm a datblygu medrau perthnasol a phwrpasol ar gyfer bywyd. Gall disgyblion hŷn fanteisio ar ystod addas o gyrsiau achrededig a chymwysterau wedi’u seilio ar fedrau. Lle bo’n briodol, mae’r ysgol yn cynnal cysylltiadau defnyddiol â darparwyr eraill, fel eu hysgol uwchradd leol, i ddarparu opsiynau pwrpasol ar gyfer ychydig o ddisgyblion. Mae cwricwlwm yr ysgol yn bodloni egwyddorion Cwricwlwm i Gymru yn briodol.

Mae’r ysgol yn mynd ati i hyrwyddo’r Gymraeg a’i diwylliant ar draws yr ysgol, a hynny’n llwyddiannus. Er enghraifft, mae bron pob un o’r disgyblion yn elwa ar gyfleoedd i gystadlu yng nghystadlaethau’r Urdd, ac mae’r ysgol wedi ennill gwobr arian y Siarter Iaith yn ddiweddar.

Mae’r ysgol yn cynnig ystod eang o weithgareddau allgyrsiol buddiol, fel mynychu canolfan goetir leol, clwb gwyddbwyll a band ysgol.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae Ysgol Plas Brondyffryn yn ysgol anogol ag iddi ethos cynhwysol. Mae staff yn meithrin perthnasoedd ymddiriedus gyda disgyblion. Maent yn adnabod eu disgyblion yn dda ac yn addasu dulliau’n fedrus, ar y cyfan, i ddiwallu anghenion disgyblion. Dros gyfnod, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu i fod yn ddysgwyr hyderus a hapus.

Mae gan yr ysgol dîm cynhwysiant sefydledig o staff hynod fedrus, sy’n cynnwys staff cymorth ymddygiad, arbenigwyr lleferydd ac iaith a staff cymorth ymyrraeth. Mae’r tîm yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at les disgyblion. Er enghraifft, wrth weithio’n agos â’r tîm cyfathrebu, maent yn darparu ystod o hyfforddiant a chymorth estynedig o ansawdd uchel mewn cyfathrebu ac ymddygiad i bob un o’r staff ar draws pob safle. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar gynnydd bron pob un o’r disgyblion, er enghraifft o ran gwella’u medrau cyfathrebu a datblygu eu strategaethau i gefnogi hunanreoli. At ei gilydd, mae hon yn nodwedd arbennig o gryf o waith yr ysgol.

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o ymyriadau buddiol ac mae'r rhain yn cynorthwyo disgyblion yn dda i ddatblygu ystod o fedrau gwerthfawr, er enghraifft mewn adnabod a deall ciwiau cymdeithasol, gwella'u lles a datblygu eu medrau llythrennedd. Yn ychwanegol, cefnogir disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth well o'u hemosiynau nhw, emosiynau pobl eraill, a sut orau i ymateb i'r rhain. At ei gilydd, i'r rhai sy'n derbyn yr ymyriadau hyn, mae'r cymorth hwn yn cael effaith gadarnhaol ar eu hyder a'u deilliannau.

Mae prosesau cynlluniau datblygu unigol a'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol gysylltiedig yn cefnogi lles a dysgu disgyblion yn dda. Mae'r ysgol wedi datblygu cerrig milltir gwerthfawr i gynorthwyo disgyblion i gyflawni camau bach mewn dysgu. Mae arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wedi'i datblygu'n dda. Mae disgyblion yn mwynhau myfyrio ar eu cynnydd yn ystod cyfarfodydd adolygu ac yn gwneud awgrymiadau synhwyrol ar gyfer meysydd i'w gwella. Mae rhieni a gofalwyr yn gwerthfawrogi'r cyfle i drafod cynnydd eu plentyn gyda'r ystod o bobl broffesiynol sy'n bresennol.

Mae arweinwyr wedi datblygu prosesau trylwyr i werthuso'r cynnydd a wna disgyblion tuag at gyflawni eu deilliannau arfaethedig. Maent wedi rhoi ystod o systemau defnyddiol ar waith i olrhain a monitro cynnydd disgyblion. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'r cynnydd a wna disgyblion ar draws yr ysgol, ac maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i lywio cynllunio a gwneud penderfyniadau.

Mae'r ysgol yn cyflwyno cwricwlwm addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) trylwyr o fewn y maes dysgu iechyd a lles. Hefyd, mae'r ysgol wedi gweithio'n llwyddiannus gyda rhieni a gofalwyr i gyflwyno cwricwlwm addysg rhyw a chydberthynas teilwredig, sy'n diwallu anghenion disgyblion yn dda. Mae hon yn nodwedd nodedig.

Mae cwricwlwm yr ysgol yn rhoi cyfleoedd addas ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion trwy ystod briodol o gyd-destunau. Er enghraifft, mewn gwersi, mae disgyblion yn diffinio bwlio a'i effaith ar iechyd a lles emosiynol. Maent yn datblygu goddefgarwch ac yn dysgu parchu medrau a rhinweddau unigryw ei gilydd. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer addoli ar y cyd, sy'n galluogi disgyblion, er enghraifft, i fyfyrio, archwilio'u teimladau a thrafod gwerthoedd fel cyfeillgarwch.

Mae gan yr ysgol berthnasoedd cryf ac effeithiol ag ystod o bartneriaid. Defnyddir y rhain yn effeithiol i ymestyn y cwricwlwm a chefnogi anghenion dysgu ychwanegol a diogelu disgyblion.

Mae'r ysgol yn meithrin perthnasoedd llwyddiannus â rhieni. Mae rhieni'n gwerthfawrogi'r ohebiaeth reolaidd ac effeithiol gan yr ysgol, ac yn gwybod pa mor dda y mae eu plentyn yn gwneud. Mae rhieni'n elwa ar ystod o ddigwyddiadau a gweithdai rheolaidd a ddarperir gan yr ysgol. Mae hyn, er enghraifft, yn eu helpu i ddeall a chefnogi anghenion synhwyraidd a chyfathrebu eu plentyn.

Mae systemau i fonitro a rheoli presenoldeb disgyblion yn drylwyr ac yn llwyddiannus o ran cynyddu cyfraddau presenoldeb cyffredinol ym mhob un o'r tair blynedd ddiwethaf.

Ceir diwylliant diogelu cryf iawn yn yr ysgol. Mae canllawiau a gweithdrefnau diogelu'r ysgol yn gynhwysfawr, ac mae pob un o'r staff yn gwybod beth yw eu cyfrifoldebau ar gyfer cadw disgyblion yn ddiogel tra byddant yn yr ysgol. Mae prosesau clir a chyson ar gyfer rheoli cyfnodau trosglwyddo ar ddechrau a diwedd pob diwrnod yn effeithiol.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth**

Mae gan y pennaeth weledigaeth gref ac ymrwymiad moesol i ddatblygu a chryfhau darpariaeth yr ysgol ymhellach i gefnogi lles disgyblion. Mae lles a gofal, cymorth ac arweiniad yn nodweddion hynod gryf o waith yr ysgol.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth bwrpasol a phwyllog. Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth gymharol newydd yn angerddol ac wedi ymrwymo i'r ysgol a'i disgyblion. Mae'r penaethiaid cynorthwyol yn goruchwylio cynnal y gwahanol safleoedd o ddydd i ddydd, ac mae ganddynt wasgariad priodol o gyfrifoldebau ysgol gyfan y maent yn eu cyflawni'n effeithlon. Mae gan arweinwyr canol gyfrifoldeb ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm ar draws yr ysgol. Mae'r cwricwlwm yn briodol, at ei gilydd, ac mae'r ysgol yn datblygu rôl arweinwyr canol. Felly, mae'n rhy gynnar i farnu effaith eu gwaith yn llawn.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer rheoli perfformiad athrawon ac arfarniadau ar gyfer cynorthwywyr addysgu. Mae amcanion rheoli perfformiad yn cysylltu'n agos â'r safonau proffesiynol ar gyfer athrawon a chynorthwywyr addysgu, ac yn cysylltu hefyd â blaenoriaethau yn y cynllun datblygu ysgol.

Yn gyffredinol, mae'r corff llywodraethol yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o'r ysgol, ei chryfderau a'i meysydd i'w datblygu. Mae'r pennaeth ac arweinwyr eraill ar draws yr ysgol yn rhoi diweddariadau defnyddiol i lywodraethwyr ar waith yr ysgol. Nid yw'r adroddiadau hyn bob amser yn canolbwyntio'n ddigon da ar roi gwybod i lywodraethwyr am ansawdd yr addysgu neu'r cynnydd a wna disgyblion yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Pan fo modd, mae'r corff llywodraethol yn ceisio penodi llywodraethwyr ag ystod o fedrau a phrofiadau sydd wedyn yn cael eu paru'n dda i feysydd gwaith yr ysgol, er enghraifft mewn diogelu ac iechyd a diogelwch. Ceir ystod briodol o is-grwpiau a llywodraethwyr dynodedig ar gyfer gwahanol agweddau ar waith yr ysgol. Mae llywodraethwyr yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd i gyfarfod ag arweinwyr, staff a disgyblion, ac maent yn ennill mewnwelediad sylweddol o'r cyfarfodydd hyn. Mae arweinwyr yn gwerthfawrogi'r trafodaethau ymholgar, hefyd.

Mae diffyg yng nghyllideb yr ysgol. Nid oes cynllun clir ar sut bydd yr ysgol yn lleihau'r diffyg, ac mae hyn yn effeithio ar allu'r ysgol i yrru gwelliannau. Er enghraifft, mae hyn yn cyfyngu ar allu'r corff llywodraethol i wneud penodiadau parhaol yn yr ysgol.

Mae safle Tŷ'r Ysgol yn darparu cymorth dynodedig ar gyfer disgyblion ag awtistiaeth sydd ag anghenion cymhleth. Fodd bynnag, mae ffurfweddiad yr adeilad a'r ardaloedd addas cyfyngedig i ddisgyblion hunanreoli eu hemosiynau yn achosi heriau i staff gefnogi anghenion y disgyblion yn llawn mewn amgylchedd diogel.

Nid yw defnydd yr ysgol o wybodaeth uniongyrchol i lywio cynllunio strategol wedi'i ddatblygu'n ddigonol, ac nid yw'r wybodaeth sydd gan yr ysgol yn cael ei choladu i lywio meysydd ysgol gyfan i'w gwella yn ddigon da. Yn ddiweddar, mae staff wedi cael eu cynnwys yn fwy mewn trefniadau hunanwerthuso. Fodd bynnag, mae'r ddealltwriaeth sydd gan staff o flaenoriaethau gwella'r ysgol yn amrywiol. Nid yw trefn yr ysgol o ran gwerthuso'i chryfderau a'i meysydd i'w gwella yn cofnodi'r amrywioldeb yn ansawdd yr addysgu na'r pryderon iechyd a diogelwch a godwyd gan arolygwyr.

Mae blaenoriaethau gwella'r ysgol yn briodol, at ei gilydd, ac yn cynnwys diweddariadau defnyddiol ar gynnydd. Fodd bynnag, nid yw hi bob amser yn glir sut mae gweithgareddau hunanwerthuso yn llywio cynllunio gwelliant yn uniongyrchol. Hefyd, nid yw camau gweithredu i sicrhau gwelliannau ar gyflymdra yn glir, sy'n ei gwneud yn anodd i uwch arweinwyr werthuso'u cynnydd wrth sicrhau'r gwelliannau angenrheidiol. At ei gilydd, mae blaenoriaethau gwella'r ysgol yn canolbwyntio ar ansawdd yr addysgu neu gynnydd disgyblion yn ddigon da.

Mae staff wedi elwa ar y fenter ddiweddar i arsylwi cydweithwyr ar y safleoedd eraill. Maent wedi gweld y ddeialog broffesiynol yn werthfawr. Mae arweinwyr a staff wedi cydweithio ar draws y safleoedd i ddatblygu'r cwricwlwm. O fewn yr ysgol, mae staff yn elwa ar gyfleoedd gwerthfawr a ddarperir gan yr awdurdod lleol a'r rhanbarth i ddatblygu eu medrau arwain. Fodd bynnag, nid yw datblygiad proffesiynol yn canolbwyntio'n ddigon da ar sicrhau cysondeb strategaethau addysgu a dysgu.

Mae defnydd yr ysgol o'r grant datblygu disgyblion yn ariannu gwasanaeth cynhwysiant yr ysgol yn rhannol. Caiff y gwasanaeth hwn effaith fuddiol ar fedrau cyfathrebu a lles disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 16/07/2024